# Adroddiad Blynyddol 2016 - 2017

**Bwrdd Taliadau**
**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**

**Gorffennaf 2017**



# Y Bwrdd Taliadau

Bwrdd Taliadau Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff annibynnol sy'n gyfrifol am bennu cyflogau, pensiynau a lwfansau Aelodau'r Cynulliad a'u staff. Sefydlwyd y Bwrdd drwy Fesur (Taliadau) Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2010.

# Aelodau'r Bwrdd

**Y Fonesig Dawn Primarolo DBE PC (Cadeirydd)**

**Ronnie Alexander***

**Trevor Reaney CBE**

**Mike Redhouse**

**Y Fonesig Jane Roberts**

***** Cadarnhaodd Comisiwn y Cynulliad benodiad Ronnie Alexander i'r Bwrdd ym mis Mehefin 2017. Cymerodd ei le ar y Bwrdd ym mis Gorffennaf 2017.

# Ysgrifenyddiaeth y Bwrdd

**Dan Collier**, Clerc y Bwrdd Dros Dro

**Sian Giddins**, Dirprwy Glerc

* Penodwyd Lleu Williams yn Glerc i'r Bwrdd Taliadau ym mis Gorffennaf 2017.

Mae copi electronig o'r adroddiad hwn ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol:
**www.cynulliad.cymru**

Mae copïau o'r adroddiad hwn hefyd ar gael mewn fformatau hygyrch gan gynnwys Braille, print bras, sain neu gopi papur oddi wrth:


**Clerc y Bwrdd Taliadau**
**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
**Bae Caerdydd**
**Caerdydd**
**CF99 1NA**
Ffôn: 0300 200 6565
E-bost: **Taliadau@cynulliad.cymru**



# Cynnwys

**Cyflwyniad** ........ **1**

**Y Bwrdd Taliadau** ........ **2**

**Gwaith y Bwrdd yn 2016-17** ........ **5**

**Rhaglen Waith 2017-18** ........ **13**

**Atodiad A: Aelodau'r Bwrdd** ........ **15**

**Atodiad B: Dadansoddiad o gostau'r Bwrdd yn ystod 2016-17** ........ **19**



# Cyflwyniad

Mae'n rhaid adolygu'n barhaus er mwyn sicrhau bod Aelodau'n cael yr adnoddau sydd eu hangen arnynt ac yn cael eu cefnogi'n effeithiol i gyflawni eu dyletswyddau Seneddol, a chynnal yr egwyddor o sicrhau gwerth da am arian i'r pwrs cyhoeddus ar yr un pryd.

Mae'n rhaid i ni hefyd bennu lefel deg o dâl i Aelodau sy'n adlewyrchu cymhlethdod a phwysigrwydd eu swyddogaethau, ac sy'n rhoi digon o adnoddau iddynt i gyflawni eu dyletswyddau.

Roedd ein Penderfyniad ar gyfer 2016-17 yn cynnal system gadarn o gymorth ariannol i Aelodau a'u staff. Ym mis Ionawr 2017, cyhoeddwyd ein strategaeth ar gyfer y Cynulliad hwn sy'n gosod egwyddorion clir ar gyfer pecyn tâl yr Aelodau ac sy'n amlygu'r heriau sydd i'w gweld ar y gorwel.

Wrth ddatblygu ein strategaeth, aeth aelodau'r Bwrdd ar ymweliad hynod werthfawr â'r swyddfeydd etholaethol yng ngogledd Cymru i siarad yn uniongyrchol ag Aelodau a'u staff er mwyn gweld drostynt eu hunain yr heriau y maent yn eu hwynebu'n ddyddiol. Rydym yn awyddus i gynnal y ddeialog gadarnhaol hon ac yn gobeithio ymweld â'r swyddfeydd etholaethol eto yn y dyfodol.

Mae tri maes allweddol ar gyfer ein gwaith ar hyn o bryd:

- rydym yn cymryd rhan mewn adolygiad o'r rhwystrau a'r cymhellion o ran sefyll mewn etholiad ar gyfer Cynulliad Cenedlaethol Cymru;
- rydym wrthi'n adolygu canlyniadau arolwg a ddosbarthwyd i Aelodau a'u staff cymorth er mwyn asesu pa mor effeithiol yw ein Penderfyniad, flwyddyn ers dechrau'r Cynulliad newydd; ac
- rydym ar fin cychwyn ar adolygiad o'r lefel o gymorth sydd ar gael i Aelodau, y fframwaith staffio a chyflogau, telerau ac amodau staff cymorth.

Hefyd, rydym wedi ystyried yn rheolaidd achosion lle y mae'r Aelodau'n teimlo y dylid adolygu'r trefniadau presennol. Byddwn yn adolygu'r egwyddorion sy'n sail i'r Penderfyniad drwy gydol ein cyfnod ar y Bwrdd, er mwyn sicrhau ei fod yn parhau yn addas i'r diben.

Fel Cadeirydd y Bwrdd, rwyf wedi parhau i gysylltu'n rheolaidd â'r Llywydd a chwrdd ag Aelodau sy'n dymuno trafod materion. Byddwn yn parhau i ymgysylltu'n uniongyrchol ac yn gyson ag Aelodau a'u staff er mwyn egluro syniadau'r Bwrdd a chael adborth gan y rhai yr effeithir yn fwyaf uniongyrchol arnynt. Byddwn hefyd yn datblygu cysylltiadau cynhyrchiol â rhanddeiliaid eraill. Yn y pen draw, fodd bynnag, mae penderfyniadau'r Bwrdd yn annibynnol a'r Bwrdd ei hun sy'n gyfrifol am eu gwneud.

Mae gennym lawer i'w wneud wrth reoli cymhlethdodau'r cymorth ariannol a ddarperir i Aelodau er mwyn sicrhau eu bod yn gallu ymateb i'r heriau a ddaw yn sgil esblygiad y Cynulliad.

# Y Bwrdd Taliadau

*Mae'r bennod hon yn disgrifio swyddogaethau'r Bwrdd, ei gylch gwaith a'i ffyrdd o weithio*

## 1.1 Sefydlu a Phenodi

1.1.1 **Bwrdd Taliadau** Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff annibynnol sy'n gyfrifol am bennu taliadau a lwfansau Aelodau'r Cynulliad a'u staff. Cafodd y Bwrdd ei sefydlu gan **Fesur Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Taliadau) 2010** (y Mesur), a gafodd Gymeradwyaeth Frenhinol ar 22 Gorffennaf 2010.

1.1.2 Cafodd y Bwrdd ei benodi gan weithdrefn penodiadau cyhoeddus dryloyw a gynhaliwyd yn ystod yr haf yn 2015. Mae bywgraffiadau pob un o aelodau'r Bwrdd wedi'u cynnwys yn Atodiad A. Mae aelodau'r Bwrdd Taliadau wedi'u penodi am gyfnod penodol o bum mlynedd, ac ni chaniateir iddynt gael eu penodi am fwy na dau dymor.

1.1.3 Cymeradwyodd Comisiwn y Cynulliad benodiad aelodau newydd y Bwrdd yn ffurfiol ar 21 Medi 2015, a chynhaliodd y Bwrdd ei gyfarfod cyntaf ar 17 a 18 Medi 2015.

1.1.4 Ar 12 Mehefin 2017, cymeradwyodd Comisiwn y Cynulliad benodiad Ronnie Alexander i'r Bwrdd yn ffurfiol, yn lle Roger Williams, a ymddiswyddodd ym mis Mai 2016. Mae Ronnie wedi cymryd ei le ar y Bwrdd ers 10 Gorffennaf.

## 1.2 Swyddogaethau ac Amcanion

1.2.1 Swyddogaethau'r Bwrdd, fel y'u nodir yn Adran 3 o'r Mesur, yw penderfynu ar lefel y taliadau a system o gymorth ariannol i Aelodau'r Cynulliad (a elwir o hyn ymlaen yn Aelodau) sy'n eu galluogi i gyflawni eu swyddi.

1.2.2 Mae'r Mesur yn nodi tri amcan allweddol y mae'n rhaid i'r Bwrdd geisio eu cyflawni wrth wneud **Penderfyniad**, sef:

- darparu lefel taliadau ar gyfer Aelodau sy'n adlewyrchu cymhlethdod a phwysigrwydd y swyddogaethau y maent yn ymgymryd â hwy, ac nad yw'n rhwystro unigolion, am resymau ariannol, rhag ceisio cael eu hethol i'r Cynulliad;
- darparu adnoddau digonol i Aelodau i'w galluogi i arfer eu swyddogaethau; a
- sicrhau uniondeb, atebolrwydd, gwerth am arian a thryloywder o ran gwario arian cyhoeddus.

1.2.3 Wrth gyflawni ei swyddogaethau, mae adran 3 o'r Mesur yn ei gwneud yn ofynnol i'r Bwrdd adolygu'r ffordd y gweithredir ei benderfyniadau a'i effeithiolrwydd yn barhaus, gan ystyried yn benodol y profiad y mae'r Bwrdd yn ei ennill wrth roi ei Benderfyniadau ar waith, unrhyw newidiadau i swyddogaethau Aelodau, ac unrhyw amgylchiadau eraill sy'n berthnasol.

1.2.4 Er ei fod yn annibynnol ar y Cynulliad, ac nad yw'n ddarostyngedig i gyfarwyddyd na rheolaeth Comisiwn y Cynulliad, mae adran 2 o'r Mesur yn ei gwneud yn ofynnol i'r Bwrdd, wrth arfer ei swyddogaethau, ymgynghori â'r rhai y mae ei benderfyniadau yn debygol o effeithio arnynt. Mae hyn yn cynnwys Aelodau, staff a gyflogir gan Aelodau neu gan grwpiau o Aelodau, undebau llafur perthnasol ac unrhyw un arall y mae'r Bwrdd o'r farn ei fod yn briodol.

1.2.5 Mae Adran 2 o'r Mesur yn caniatáu i'r Bwrdd gyfarfod yn breifat os bydd hynny'n briodol yn ei farn, ond mae hefyd yn ei gwneud yn ofynnol iddo ymddwyn mewn modd tryloyw a chyhoeddi ar wefan y Cynulliad y cyfryw wybodaeth a fydd yn sicrhau bod y cyhoedd yn cael y wybodaeth ddiweddaraf am ei weithgareddau. Yn ogystal â hyn, mae adran 11 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Bwrdd osod gerbron y Cynulliad adroddiad blynyddol am ei weithgareddau, gan gynnwys yr adnoddau a ddefnyddir ganddo, yn ystod pob blwyddyn ariannol.

1.2.6 Caiff costau'r Bwrdd a'r treuliau a hawliwyd gan Aelodau eu cyhoeddi ar ddiwedd yr adroddiad blynyddol hwn. Mae agenda a chofnodion pob un o gyfarfodydd ffurfiol y Bwrdd ar gael ar dudalennau'r Bwrdd ar wefan y Cynulliad.

## 1.3 Egwyddorion

1.3.1 Mae cyfres o egwyddorion a ddiffiniwyd yn glir wedi bod yn sail i waith y Bwrdd hyd yma:

- dylai'r cymorth ariannol a'r taliadau a roddir i Aelodau gefnogi diben strategol y Cynulliad a hwyluso gwaith ei Aelodau;
- rhaid i benderfyniadau fod yn briodol yng nghyd-destun enillion yng Nghymru ac amgylchiadau ariannol ehangach Cymru;
- rhaid i'r system cymorth ariannol i Aelodau fod yn gadarn, yn glir, yn dryloyw ac yn gynaliadwy, a rhaid iddi gynnig gwerth am arian i drethdalwyr.

1.3.2 Yn ystod ei flwyddyn gyntaf, datblygodd y Bwrdd set newydd o egwyddorion ac amcanion llywodraethu, cyn cyhoeddi ei **strategaeth** ar gyfer cyflawni ei waith yn ystod y Pumed Cynulliad.

## 1.4 Methodoleg

1.4.1 Mae'r hyn a nodir yn y Penderfyniadau yn deillio o adolygiad tryloyw a chyfranogol o'r system o roi cymorth ariannol a thaliadau, ac mae'n seiliedig ar dystiolaeth a gasglwyd gan Aelodau, eu staff, ac unigolion, sefydliadau a ffynonellau perthnasol eraill. Mae'r dystiolaeth y mae'r Bwrdd wedi'i chasglu wedi ei alluogi i greu darlun clir o ddibenion strategol y Cynulliad a'r ffordd y mae Aelodau'n cyflawni'r dibenion hynny. Mae'r Bwrdd wedi rhoi system daliadau ar waith sy'n targedu adnoddau er mwyn cefnogi'r dibenion hyn a phob agwedd ar rôl Aelod. Yn unol â'i gylch gwaith, mae'r Bwrdd yn ymateb i adborth yn ôl yr angen, drwy ystyried gwelliannau i'r Penderfyniad er mwyn sicrhau ei fod yn dal i fod yn addas i'r diben.

1.4.2 Yn unol ag adran 9 o'r Mesur, mae'r Bwrdd yn cael cymorth clercio ac ymchwil, cyngor cyfreithiol a chyngor arall, a chymorth gweinyddol gan staff Comisiwn y Cynulliad. Darperir y cymorth hwn fel rhan o ddyletswyddau cyffredinol staff y Comisiwn, ac nid yw felly'n golygu bod y Bwrdd Taliadau'n ysgwyddo costau ychwanegol.

1.4.3 Rhoddodd gwaith cynnar y Bwrdd gyfle i aelodau'r Bwrdd ddysgu rhagor am eu rôl, sut y mae'r Cynulliad yn gweithio a'r heriau cyfansoddiadol sy'n wynebu'r Bwrdd a'r Cynulliad yn y dyfodol. Defnyddiodd aelodau unigol o'r Bwrdd y profiad hwn i lywio penderfyniadau'r Bwrdd yn ystod y flwyddyn gyntaf ac i bennu strategaeth ar gyfer ei waith yn y dyfodol.

1.4.4 Mae'r Bwrdd wedi ymrwymo i ddarparu'r adnoddau i ddiwallu anghenion Aelodau ac i ymateb i ofynion y Cynulliad wrth iddo ddatblygu'n Senedd Cymru. Mae'n bwysig i'r Bwrdd dargedu adnoddau i gefnogi Aelodau i gyflawni eu swyddogaethau craidd, sef craffu ar bolisi a chyllid; dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif; deddfu; a chynrychioli eu hetholwyr.

1.4.5 Nid yw hyn yn golygu na fydd y Bwrdd yn dymuno ystyried sut y gall ei swyddogaeth gyfrannu'n ehangach at ddatblygu'r Cynulliad yn strategol wrth i'r sefydliad dyfu a datblygu ac wrth i'w ofynion newid dros amser.

1.4.6 Os yw'n briodol ym marn y Bwrdd iddo gyfrannu at faterion sydd â chanlyniadau ehangach, fel ceisio dileu'r rhwystrau i'r rhai sy'n ystyried ymgeisio mewn etholiad, bydd y Bwrdd yn gwneud hynny, heb golli golwg ar ei gylch gwaith deddfwriaethol.

## 1.5 Ymgynghori a Chasglu Tystiolaeth

1.5.1 Ym mhob rhan o'i waith, ac yn unol ag Adran 2 o'r Mesur, mae'r Bwrdd wedi cynnal ymgynghoriad ag amrywiaeth o randdeiliaid ac wedi chwilio am dystiolaeth i lywio ei benderfyniadau drwy ymgynghori'n rheolaidd.

1.5.2 Bydd y Bwrdd newydd yn parhau i wneud hyn ac yn cysylltu ac yn ymgynghori mwy er mwyn sicrhau bod ei benderfyniadau yn parhau'n addas i'r diben.

1.5.3 Mae'r Bwrdd yn gwerthfawrogi cyfraniad Grwpiau Cynrychiolwyr yr Aelodau a'u staff cymorth ac roedd am ailsefydlu'r Grwpiau fel y gallai glywed barn onest Aelodau a'u staff cyn bwrw ymlaen â darnau allweddol o waith yn y dyfodol. Gofynnodd y Bwrdd am gyngor y ddau Grŵp wrth ddatblygu holiaduron peilot er mwyn cael adborth ar effeithiolrwydd y darpariaethau ym Mhenderfyniad y Pumed Cynulliad. Bydd y Bwrdd yn parhau i ddefnyddio'r Grwpiau hyn yn y dyfodol i hyrwyddo ei benderfyniadau ac i ystyried materion a phryderon sy'n effeithio ar yr Aelodau a'u staff.

# Gwaith y Bwrdd yn 2016-17

*Mae'r bennod hon yn egluro'r newidiadau a wnaed gan y Bwrdd i'r Penderfyniad eleni yn dilyn adborth a thystiolaeth gan yr Aelodau.*

## 1.6 Adolygu Penderfyniadau

1.6.1 Mae'n ofynnol i'r Bwrdd adolygu'r Penderfyniad yn rheolaidd i sicrhau ei fod yn parhau i roi i'r Aelodau yr adnoddau sydd eu hangen arnynt i gyflawni eu dyletswyddau. Er mwyn gwneud hyn, gwahoddodd y Bwrdd blaenorol adborth a thystiolaeth gan Aelodau a oedd yn ei alluogi i asesu effeithiolrwydd y penderfyniadau a nodi unrhyw feysydd yr oedd angen eu hadolygu.

1.6.2 Adolygodd y Bwrdd ei benderfyniadau mewn sawl maes ac fe'u rhestrir isod. Lle y bo angen, gwnaed newidiadau i'r Penderfyniad ar gyfer y Pumed Cynulliad er mwyn creu pecyn o gymorth ariannol i Aelodau a fyddai'n addas ar gyfer sefydliad sydd â mwy o bwerau deddfu a phwerau ym maes trethiant.

## 1.7 Newidiadau i'r Penderfyniad ar gyfer 2017-18: Cyflogau a buddiannau staff cymorth Aelodau'r Cynulliad

1.7.1 Mae cyflogeion yn y sector preifat ar gyfartaledd yn parhau i weld cynnydd gwirioneddol yn eu cyflogau, gan fod newidiadau mewn cyflogau canolrifol yn parhau i fod yn uwch na chwyddiant a gwerth dyfarniadau cyflog dros y flwyddyn ddiwethaf oedd 2 y cant. Y rhagolwg cyfatebol ar gyfer cyflogau yn y sector cyhoeddus yw 1 y cant.

1.7.2 Y llynedd, defnyddiodd y Bwrdd y ffigurau diweddaraf a oedd ar gael ar gyfer enillion blynyddol canolrifol staff amser llawn yng Nghymru (fel y'u mesurir gan yr Arolwg Blynyddol o Oriau ac Enillion) i uwchraddio cyflogau staff cymorth Aelodau'r Cynulliad. Cyhoeddwyd ffigurau dros dro yr Arolwg Blynyddol o Oriau ac Enillion ar gyfer 2016 ym mis Hydref 2016; y ffigur oedd 2.1 y cant a chytunodd y Bwrdd mai dyma'r mynegai mwyaf addas o hyd ar gyfer pennu cynnydd cyflog priodol ar gyfer 2017-18.

*Penderfyniad*

*Rhoddwyd codiad cyflog o 2.1 y cant i staff cymorth Aelodau'r Cynulliad ar gyfer 2017-18 yn unol â'r ffigurau ar gyfer enillion canolrifol yr Arolwg Blynyddol o Oriau ac Enillion ar gyfer 2016 yng Nghymru.*

1.7.3 Mae staff cymorth Aelodau'r Cynulliad wedi nodi'n aml sut y gallai natur newidiol gwleidyddiaeth ddatganoledig a'r gofynion ychwanegol ar yr Aelodau effeithio ar eu rolau.

1.7.4 Mae'r Bwrdd wedi ymrwymo i gynnal adolygiad o ddatblygiad gyrfaoedd a chyflogau staff cymorth Aelodau'r Cynulliad, o ystyried rhai o'r materion a godwyd hyd yma. Bydd y Bwrdd yn dechrau'r adolygiad hwn ddiwedd 2017/dechrau 2018.

1.7.5 Cytunodd y Bwrdd y dylid cynyddu cyfanswm y Lwfans Cymorth i Bleidiau Gwleidyddol, sef £910,000, 2.1 y cant yn unol â'r cynnydd arfaethedig yn y dyfarniad cyflog i staff cymorth Aelodau'r Cynulliad. Y lwfans newydd felly yw £929,110.

*Penderfyniad*

*Cynyddu cyfanswm y Lwfans Cymorth i Bleidiau Gwleidyddol 2.1 y cant yn unol â'r cynnydd yng nghyflog staff cymorth Aelodau'r Cynulliad.*

## 1.8 Costau Swyddfeydd 2017-18

1.8.1 Trafododd y Bwrdd y lwfans costau swyddfa ac a yw'n parhau'n briodol ar gyfer blwyddyn ariannol 2017-18. Ystyriodd y Bwrdd nifer o ffactorau, gan gynnwys adborth diweddar gan Aelodau, gwariant Aelodau ar gostau swyddfa, costau rhentu swyddfeydd ledled Cymru a chwyddiant, a chytunwyd i gynyddu'r lwfans yn unol â'r mynegai prisiau defnyddwyr.

*Penderfyniad*

*Cynyddu'r lwfans costau swyddfa 1.2 y cant ar gyfer 2017-18 yn unol â'r mynegai prisiau defnyddwyr.*

## 1.9 Gwariant ar lety preswyl 2017-18

1.9.1 Mae'r Penderfyniad hwn yn seiliedig ar leoliad prif gartref yr Aelod, nid yr etholaeth neu'r rhanbarth a gynrychiolir ganddo. Ar hyn o bryd, nid yw'n darparu ar gyfer gwariant ar lety preswyl ar gyfer Aelod nad yw ei brif gartref yng Nghymru. Felly, mae'n seiliedig ar ragdybiaeth fod prif gartref pob Aelod yng Nghymru. Mewn ymateb i gais gan Aelod, ystyriodd y Bwrdd a ddylid diwygio'r Penderfyniad i adlewyrchu hyn.

1.9.2 Nododd y Bwrdd nad oes unrhyw beth yn Neddf Llywodraeth Cymru 2006, nac unrhyw ddeddfwriaeth arall a dweud y gwir, i ddarparu bod yn rhaid i Aelodau'r Cynulliad fyw mewn lleoliad penodol pan fyddant yn cael eu hethol neu ar ôl hynny.

1.9.3 Mae'n ddyletswydd gyfreithiol ar y Bwrdd i sefydlu system o gymorth ariannol sy'n galluogi **holl Aelodau'r Cynulliad** i wneud eu gwaith yn effeithiol. Am y rheswm hwnnw, ymgynghorodd y Bwrdd â'r cyhoedd a'r Aelodau ar gynnig i ymestyn yr Ardal Allanol i'r DU gyfan, gan sicrhau bod Aelodau sydd â'u prif gartref y tu allan i Gymru yn gymwys i gael lwfans Gwariant ar Lety Preswyl.

1.9.4 Cafodd y Bwrdd 41 o ymatebion i'r ymgynghoriad a nodwyd bod gwrthwynebiad sylweddol i'r cynnig. Roedd llawer o'r rhain yn dadlau y dylai Aelodau'r Cynulliad, fel mater o egwyddor, fyw o fewn ffiniau Cymru, a mynegwyd pryderon ynghylch gwerth am arian wrth ddefnyddio arian cyhoeddus.

1.9.5 Roedd y Bwrdd yn cydnabod y byddai cyflwyno cymhwyster preswylio ar gyfer Aelodau, yn amlwg, yn fater gwleidyddol sensitif. Ni fynegodd farn ar ba mor ddymunol ydyw, ai peidio, y dylai cymhwyster i ymgeisio fel Aelod Cynulliad fod yn ddibynnol ar breswylio yng Nghymru, neu yn wir yn y rhan o Gymru y mae’r Aelod yn ei chynrychioli. Roedd y Bwrdd yn credu'n gryf mai mater i'r ddeddfwrfa oedd pennu'r gofynion cymhwysedd ar gyfer ymgeiswyr yn etholiadau'r Cynulliad, ac mai mater i'r etholwyr oedd penderfynu pwy y dylid ei ethol. Mae swyddogaethau'r Bwrdd wedi’u cyfyngu i bennu lwfansau rhesymol ar gyfer y rheini sydd wedi eu hethol.

1.9.6 Penderfynodd y Bwrdd na ddylid newid ei Benderfyniad yn y ffordd a gynigiwyd. Yn lle hynny, byddai'r Bwrdd yn arfer disgresiwn ac yn ymdrin ag achosion o'r fath fel amgylchiadau eithriadol.

1.9.7 Gwnaeth y Bwrdd hefyd gynnal ei adolygiad blynyddol o Wariant ar Lety Preswyl ar gyfer 2017-18 gan ystyried nifer o ffactorau, gan gynnwys cymariaethau â dulliau gweithredu'r deddfwrfeydd eraill ledled y DU. O ran cymorth i Aelodau'r Ardal Allanol, penderfynodd y Bwrdd ymchwilio i brisiau rhent ym Mae Caerdydd er mwyn bod eu penderfyniad yn adlewyrchu'r prisiau rhent diweddaraf.

1.9.8 Penderfynodd y Bwrdd hefyd i gynnal y cyfraddau presennol ar gyfer gwaith atgyweirio hanfodol ar gyfer eiddo ar forgais a'r lwfans cyfrifoldebau gofalu. Ni châi'r lwfansau hyn eu cynyddu'n unol â'r lwfans Gwariant ar Lety Preswyl ar gyfer 2017-18.

1.9.9 Dyma a benderfynwyd mewn perthynas â'r lwfans Gwariant ar Lety Preswyl:

- cynyddu'r lwfans ar gyfer Aelodau yn yr Ardal Allanol i adlewyrchu amodau presennol y farchnad eiddo ym Mae Caerdydd;
- cadw'r uchafswm ar gyfer gwaith atgyweirio hanfodol ar £882: Mae nifer fach o Aelodau yn yr Ardal Allanol sydd wedi bod yn gwasanaethu ers amser hir yn dal i gael ad-daliad mewn cysylltiad â thaliadau llog morgais ar eu heiddo eu hunain. Caniateir i Aelodau yn y sefyllfa hon hawlio hyd at £882 tuag at gost gwaith adnewyddu hanfodol i'w heiddo; a
- pharhau â'r gyfradd ar gyfer y lwfans cyfrifoldebau gofalu (yn amodol ar gymeradwyo achos busnes) sef hyd at £1,440 y flwyddyn i dalu am gost uwch llety addas (£120 y mis).

*Penderfyniadau*

*Cynyddu'r lwfans Gwariant ar Lety Preswyl i Aelodau yn yr Ardal Allanol o £735 y mis i £755 y mis i adlewyrchu amodau presennol y farchnad eiddo leol;*

*Cadw'r uchafswm y caiff Aelodau ei hawlio tuag at gost gwaith adnewyddu hanfodol i'w heiddo, sef hyd at £882.*

*Cadw uchafswm y costau rhentu ar gyfer Aelodau sydd â dibynyddion ar £120 y mis.*

## 1.10 Cyflog ychwanegol ar gyfer Cadeiryddion pwyllgorau

1.10.1 Yn y Pedwerydd Cynulliad, roedd Cadeiryddion yn cael cyflog ychwanegol am ymgymryd â'r rôl honno. Cyflawnodd y Bwrdd Taliadau blaenorol waith ymchwil helaeth i gyrraedd lefel briodol o gyflog i Gadeiryddion pwyllgorau, gan gynnwys meincnodi yn erbyn cymaryddion mewn deddfwrfeydd eraill ac yn y sector cyhoeddus yng Nghymru, a dadansoddi pwysau'r swydd.

1.10.2 Cynhaliodd y Bwrdd ymgynghoriad ynghylch taliadau Cadeiryddion yn y Pumed Cynulliad a chafwyd dau ymateb. O ystyried nad oedd unrhyw newidiadau sylweddol i strwythur pwyllgorau'r Pumed Cynulliad, roedd y Bwrdd presennol yn fodlon bod y lefelau cyflog ar gyfer cadeiryddion pwyllgorau yn parhau'n briodol ac yn dal yn unol â'r cyflogau a delir i gadeiryddion pwyllgorau deddfwrfeydd eraill y DU.

1.10.3 Mae'r Pwyllgor Busnes wedi nodi y bydd cyfrifoldebau'r Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol newydd yr un mor sylweddol â rhai'r Pwyllgorau Polisi a Deddfwriaeth eraill. Felly, cytunodd y Bwrdd y dylai cadeirydd y Pwyllgor hwn gael yr uchaf o'r ddau gyflog a bennir ar gyfer Cadeiryddion. Mae'r tabl a ganlyn yn nodi'r cyflogau a delir i Gadeiryddion pwyllgorau'r Pumed Cynulliad:

| Pwyllgorau | Cyflog ychwanegol |
|---|---|
| Pwyllgorau Polisi a Deddfwriaeth, gan gynnwys y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol.<br>Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus; y Pwyllgor Cyllid; y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol. | £13,000 |
| Y Pwyllgor Deisebau a'r Pwyllgor Safonau Ymddygiad | £8,660 |

*Penderfyniad*

*Cadw'r lefelau presennol o gyflog i Gadeiryddion pwyllgorau a sicrhau bod Cadeirydd y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol yn cael y cyflog uwch.*

## 1.11 Diogelwch Aelodau a'u staff

1.11.1 Mae o fewn gallu'r Bwrdd i sicrhau bod adnoddau effeithiol ar gael i weithredu mesurau i helpu i ddiogelu Aelodau. Mae diogelwch yn hynod bwysig ym marn y Bwrdd a dylid mynd i'r afael ag unrhyw faterion sydd o fewn y cylch gwaith hwn fel mater o flaenoriaeth.

1.11.2 Yn dilyn marwolaeth drasig Jo Cox AS, roedd yn amlwg i'r Bwrdd bod mwy o frys i adolygu'r mesurau diogelwch presennol.

1.11.3 Ystyriodd y Bwrdd y cymorth ariannol a ddarperir ar hyn o bryd yn y Penderfyniad ar gyfer darpariaethau diogelwch, a chyfrifoldebau Comisiwn y Cynulliad, sy'n rhoi blaenoriaeth uchel i sicrhau bod trefniadau diogelwch priodol ar waith ar gyfer Aelodau a'u staff pan fyddant oddi ar ystâd y Cynulliad.

1.11.4 Roedd y Bwrdd yn cefnogi'r adolygiad a gynhaliwyd gan Gomisiwn y Cynulliad o ddiogelwch swyddfeydd yr Aelodau ac roedd yn cytuno ei bod yn bwysig y gellid gwneud gwelliannau mor gyflym ac mor ddidrafferth â phosibl.

1.11.5 Felly, penderfynodd y Bwrdd gael gwared ar y gofyniad presennol i dalu'r £500 cyntaf a gaiff ei wario ar gostau diogelwch swyddfeydd o Gostau Swyddfa'r Aelod unigol. Yn lle hynny, cytunodd y Bwrdd i greu cronfa wedi'i neilltuo a fyddai'n darparu gwelliannau diogelwch angenrheidiol a rhesymol i'r Aelodau yn eu swyddfeydd etholaethol, eu llety preswyl (os oedd hynny'n berthnasol) a'u cartrefi. Cytunodd y Bwrdd hefyd y dylid cynnal y gronfa yn ystod blwyddyn ariannol 2017-18 hefyd, nes bod yr holl welliannau diogelwch wedi'u cwblhau'n briodol.

*Penderfyniad*

*Creu cronfa wedi'i neilltuo i ddarparu gwelliannau diogelwch angenrheidiol a rhesymol i'r Aelodau yn eu swyddfeydd etholaethol, eu llety preswyl a'u cartrefi.*

## 1.12 Y Gronfa Polisi, Ymchwil a Chyfathrebu

1.12.1 Caiff aelodau hawlio hyd at £2,500 y flwyddyn i gomisiynu darnau penodol o waith ymchwil o ffynonellau allanol ac i ganiatáu i Aelodau ymgysylltu â'u hetholwyr. Roedd yr adborth gan Aelodau sydd wedi defnyddio'r Gronfa Polisi, Ymchwil a Chyfathrebu yn y gorffennol yn gadarnhaol a chytunodd y Bwrdd i fonitro faint oedd yn ei defnyddio ac ystyried opsiynau ar gyfer ei gwella.

1.12.2 Tuag at ddiwedd ei flwyddyn olaf, penderfynodd y Bwrdd blaenorol y câi Aelodau, o'r Pumed Cynulliad ymlaen, ddefnyddio'r Gronfa i ymgysylltu â'u hetholwyr. Fodd

bynnag, ni chaniateir ei defnyddio ar gyfer gwaith sy'n ymwneud â gwleidyddiaeth y pleidiau.

1.12.3 Yn ystod 2016-17, defnyddiodd 33 o Aelodau'r Gronfa Polisi, Ymchwil a Chyfathrebu. Gwariwyd cyfanswm o £43,145.71 ar gyflawni gwaith yn y meysydd a ganlyn:

**Gwybodaeth am brosiectau'r Gronfa Polisi, Ymchwil a Chyfathrebu yn ystod 2016-17**

| Aelod Cynulliad | Teitl |
|---|---|
| Vikki Howells | Hyrwyddo Gweithgarwch yn y Cyfryngau Cymdeithasol |
| David Rees | Cynhyrchu bwrdd er mwyn hysbysebu manylion cyswllt a manylion am ei swyddfa a hysbyseb ar gyfer ei raglen |
| Adam Price | Plaid Cymru: Cynigion ar gyfer Comisiwn Seilwaith Cenedlaethol i Gymru |
| Suzy Davies | Magnetau yn dangos manylion cyswllt yr AC |
| Joyce Watson | Caethwasiaeth Fodern a Masnachu mewn Pobl yng Nghymru a'r DU |
| Jane Hutt | Nodi'r manteision posibl ar gyfer Bro Morgannwg yn deillio o fuddsoddiad Aston Martin yn Sain Tathan. Cynnig argymhellion ar sut i elwa ar y manteision |
| Russell George | Arolwg pwrpasol ar ailgylchu yn Sir Drefaldwyn |
| Mohammad Asghar | Cyflwyniad i gymorth cyntaf |
| Jeremy Miles | Trawsgrifiad o sesiynau tystiolaeth cyhoeddus yn ymwneud â pholisi economaidd |
| Suzy Davies | Llyfryn ymwybyddiaeth beicio |
| Bethan Jenkins | Arolygon ar gyfer Aelodau'r Cynulliad |
| Nathan Gill | Adrodd ar faterion allweddol yn y cyfryngau cymdeithasol |
| Mark Reckless | Cynnwys taflen fel tudalen mewn cylchgrawn a ddosberthir yn lleol am ddim |
| David Rowlands | Cynnwys taflen fel tudalen mewn cylchgrawn a ddosberthir yn lleol am ddim |
| Simon Thomas | Ymchwil polisi ynni Cymru |
| Vaughan Gething | Dylunio gwefan a'i rhoi ar waith |
| Elin Jones | Adroddiad blynyddol |
| Kirsty Williams | Adroddiad blynyddol ar gyfer 2016 |

| Aelod Cynulliad | Teitl |
|---|---|
| Mick Antoniw | Ymchwil i broblemau gamblo yng Nghymru |
| Jayne Bryant | Ymchwil i broblemau gamblo yng Nghymru |
| Janet Finch-Saunders | Cylchlythyr ymgysylltu |
| Lee Waters | Trawsgrifiad ar gyfer y cyfarfod grŵp trafod |
| Lee Waters | Gwefan ariannu torfol |
| Julie Morgan | Gwaith ymchwil ar strategaethau cyfathrebu effeithiol parthed: Deddfwriaeth sy'n gwahardd cosbi plant yn gorfforol |
| Darren Millar | Cylchlythyr etholaeth |
| Andrew RT Davies | Arolwg preswylwyr |
| Julie Morgan | Argraffu adroddiad blynyddol |
| Lee Waters | Cronfa ddata o fusnesau yn yr etholaeth |
| Llyr Gruffydd | Cyfathrebu ag etholwyr |
| Adam Price | Beth y gallai Banc Datblygu Cymru ei wneud nesaf? |
| Siân Gwenllian | Sut y gellir cyrraedd y targed o filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050? |
| Lesley Griffiths | Ymchwil i broblemau gamblo yng Nghymru |
| Ken Skates | Ymchwil i broblemau gamblo yng Nghymru |

## 1.13 Ystyried taliadau eithriadol

1.13.1 Mae'r Bwrdd yn cydnabod y gallai amgylchiadau eithriadol personol effeithio ar Aelodau unigol o bryd i'w gilydd, gan effeithio ar eu gallu i gyflawni eu dyletswyddau. Bydd y rhain yn aml yn gyfrinachol o ran eu natur a gallant godi heb fawr o rybudd. Mae'n ddyletswydd ar y Bwrdd i gefnogi Aelodau ym mhob agwedd ar eu rôl a'i farn yw, os daw amgylchiadau o'r fath i'w sylw, y dylai benderfynu a ddylid darparu cymorth ariannol eithriadol. Mae'n amlwg y bydd angen ymdrin ag unrhyw geisiadau o'r fath mewn modd sensitif, gan sicrhau ar yr un pryd bod trefniadau llywodraethu priodol ar waith ar gyfer adrodd ynghylch ystyriaethau a phenderfyniadau'r Bwrdd.

## 1.14 Rhwystrau a chymhellion o ran ymgeisio i fod yn Aelod o Gynulliad Cenedlaethol Cymru

1.14.1 Fel rhan o'r gwaith sylfaenol i lywio ei gynigion ar gyfer darparu cymorth ariannol i Aelodau'r Cynulliad yn ystod y Chweched Cynulliad o fis Mai 2021-2026, cytunodd y Bwrdd i gomisiynu ymchwil er mwyn cael gwell ddealltwriaeth o agweddau a allai atal unigolion rhag sefyll mewn etholiad i'r Cynulliad ac agweddau o fewn cylch gwaith y Bwrdd sy'n denu pobl i'r swydd.

1.14.2 Gwahoddodd y Bwrdd tendrau am y gwaith ymchwil ac, yn dilyn proses asesu gadarn, penodwyd Prifysgol Caerdydd (Canolfan Llywodraethiant Cymru) ym mis Ebrill 2017. Disgwylir adroddiad erbyn mis Rhagfyr 2017.

## 1.15 Egwyddorion sylfaenol ac effeithiolrwydd y Penderfyniad

1.15.1 Yn unol ag ymrwymiad i adolygu'n rheolaidd berfformiad y Bwrdd ac effaith ei benderfyniadau, bydd y Bwrdd yn cynnal adolygiad o'r darpariaethau presennol a gafodd eu cynnwys yn y Penderfyniad ar gyfer y Pumed Cynulliad.

1.15.2 Cytunodd y Bwrdd i gyhoeddi holiadur ynglŷn â pha mor effeithiol yw'r Penderfyniad presennol a'r egwyddorion sy'n sail i'r ddarpariaeth o ran cymorth ariannol; yn benodol, a yw'r dull gweithredu presennol yn taro'r cydbwysedd cywir rhwng cyfarwyddyd a hyblygrwydd, gan rymuso Aelodau i ddefnyddio arian yn ddoeth ond gan oruchwylio'n briodol ar yr un pryd.

1.15.3 Bydd y Bwrdd yn ystyried ac yn adrodd ar ganlyniad yr adolygiad hwn yn ystod 2017-18.

# Rhaglen Waith 2017-18

1.15.4 Bydd y Bwrdd yn parhau â'i adolygiad o'r rhwystrau a'r cymhellion o ran ymgeisio mewn etholiad i Gynulliad Cenedlaethol Cymru. Mae'r Bwrdd yn disgwyl i'r ymchwilwyr ddarparu adroddiad ar eu canfyddiadau cyn diwedd 2017. Bydd hyn wedyn yn rhoi llywio meysydd gwaith allweddol yn ystod y Pumed Cynulliad.

1.15.5 Bydd y Bwrdd yn dadansoddi canlyniadau ei arolwg o effeithiolrwydd y Penderfyniad yn ystod misoedd yr haf. Bydd hyn yn rhoi cyfle i Aelodau gyflwyno

eu barn yn ffurfiol ar sut y mae'r pecyn ariannol presennol yn gweithio, tua blwyddyn ar ôl etholiadau'r Cynulliad.

1.15.6 Bydd y Bwrdd hefyd yn parhau â'i amcan hirdymor i adolygu'r egwyddorion sy'n sail i ddarparu cymorth ariannol, yn benodol a yw'r dull presennol naill ai'n rhy ragnodol neu'n rhy hyblyg.

1.15.7 Bydd cyfle hefyd i'r Bwrdd ystyried hyd a lled ei adolygiad o'r lefelau o gymorth sydd ar gael i Aelodau. Bydd hyn yn helpu i sicrhau bod y telerau a'r amodau ar gyfer staff cymorth yn addas i'r diben a bod strwythur y cymorth sydd ar gael i Aelodau yn briodol i ddiwallu anghenion y Senedd wrth iddi aeddfedu.

# Atodiad A: Aelodau'r Bwrdd




**Y Fonesig Dawn Primarolo (Cadeirydd)**



Mae’r Fonesig Dawn Primarolo, DBE, yn wleidydd Llafur ac roedd yn Aelod Seneddol dros Dde Bryste rhwng 1987 a 2015, pan roddodd y gorau i’w sedd. Bu’n Weinidog Gwladol dros Blant, Pobl Ifanc a Theuluoedd yn yr Adran Plant, Ysgolion a Theuluoedd o fis Mehefin 2009 tan fis Mai 2010, ac yn Ddirprwy Lefarydd Tŷ’r Cyffredin ers 2010. Cafodd ei phenodi’n Fonesig Gadlywydd Urdd yr Ymerodraeth Brydeinig (DBE) am ei gwasanaeth gwleidyddol.

Ganed Dawn yn Llundain a chafodd ei magu yn Crawley, Gorllewin Sussex. Dychwelodd i Lundain ym 1973 i weithio, ac ymunodd â’r Blaid Lafur yn ystod ei chyfnod yn gweithio fel ysgrifennydd cyfreithiol mewn Canolfan Gyfreithiol yn nwyrain Llundain.

Symudodd i Fryste ym 1974 a ganed ei mab, Luke, ym 1978. Astudiodd ar gyfer gradd BA (Anrhydedd) mewn gwyddorau cymdeithasol ym Mholytechnig Bryste fel myfyriwr aeddfed a rhiant sengl, ac yn dilyn hynny cyflawnodd waith ymchwil PhD ym maes menywod a thai.

Cafodd Dawn ei hethol am y tro cyntaf i Senedd y DU yn etholiad cyffredinol 1987 ac fe fu’n gwasanaethu yn y swyddi canlynol:

- 1992–1994: Llefarydd yr Wrthblaid ar Iechyd
- 1994–1997: Llefarydd yr Wrthblaid ar y Trysorlys
- 1997–1999: Ysgrifennydd Ariannol i'r Trysorlys
- 1999–2007: Tâl-feistr Cyffredinol
- 2007–2009: Ysgrifennydd Gwladol dros Iechyd y Cyhoedd
- 2009–2010: Gweinidog Gwladol dros Blant a Phobl Ifanc

Urddwyd Dawn yn Arglwyddes am Oes yn y Deyrnas Unedig ym mis Awst 2015

.

## Trevor Trevor Reaney



Penodwyd Trevor Reaney yn Glerc a Phrif Weithredwr Cynulliad Gogledd Iwerddon ym mis Awst 2008 tan iddo ymddeol ym mis Mehefin 2016. Dechreuodd Trevor ei yrfa yn y diwydiant lletygarwch, ac mae wedi dal nifer o swyddi rheoli yn y sector preifat a chyhoeddus. Cyn ymuno â'r Cynulliad, bu Trevor yn gweithio fel Prif Weithredwr Bwrdd Plismona Gogledd Iwerddon o fis Ionawr 2004. Cyn hynny, roedd yn Brif Weithredwr Cyngor Bwrdeistref Craigavon, rhwng 1996 a 2003.

Mae Trevor yn aelod neu'n dal swydd gyda nifer o sefydliadau:

- Cymrawd yn y Sefydliad Rheoli
- Ymddiriedolwr a Dirprwy Gadeirydd Buttle UK (elusen plant)
- Ymddiriedolwr Tree Aid (elusen ddatblygu ryngwladol).

## Michael Redhouse



Michael Redhouse yw Pennaeth EMES Consulting ar hyn o bryd, sef cwmni a sefydlodd yn 2002 sy'n helpu llawer o sefydliadau mawr gyda materion cyflogau a buddion. Graddiodd Michael mewn mathemateg o'r Brifysgol Agored, ac mae ei yrfa wedi cynnwys cyfnodau fel Partner yn Ernst & Young a Chyfarwyddwr Polisi Cyflogaeth yn Diageo. Ar hyn o bryd, mae Michael yn gwasanaethu fel Ymddiriedolwr Ymddiriedolaeth APEX, sy'n cefnogi troseddwyr sy'n dychwelyd i'r gwaith, ac mae'n Gadeirydd Ymddiriedolwyr Hosbis St Luke yn Harrow.

Mae Michael yn Aelod o'r Corff Adolygu Athrawon Ysgol (STRB), sy'n edrych ar gyflogau, dyletswyddau proffesiynol ac amser gweithio athrawon ysgol yng Nghymru a Lloegr, ac sy'n adrodd i'r Ysgrifennydd Gwladol.

## Y Fonesig Jane Roberts



Mae gan y Fonesig Jane Roberts gefndir eang ym maes llywodraeth leol ac iechyd. Roedd Jane yn Arweinydd Cyngor Camden rhwng 2000 a 2005, gan wasanaethu fel cynghorydd am 16 mlynedd. Bu'n cadeirio Comisiwn y Cynghorwyr ar gyfer yr Adran Cymunedau a Llywodraeth Leol rhwng 2007 a 2009, ac ar hyn o bryd mae'n gadeirydd y felin drafod, y Rhwydwaith Llywodraeth Leol newydd.

Mae Jane ar hyn o bryd yn Gymrawd mewn Arweinyddiaeth Gyhoeddus yn Ysgol Fusnes y Brifysgol Agored. Yn broffesiynol, mae Jane yn feddyg a than fis Mehefin 2016, bu'n gweithio fel ymgynghorydd ysbyty ym maes Seiciatreg Plant a'r Glasoed. Roedd hi'n Gyfarwyddwr Meddygol ac yna'n Gyfarwyddwr Ansawdd a Pherfformiad yn Ymddiriedolaeth Gofal Sylfaenol Islington.

Mae gan Jane amrywiaeth eang o brofiad anweithredol yn y sector cyhoeddus a'r trydydd sector, yn bennaf yn ymwneud ag iechyd, addysg, polisi cyhoeddus a moeseg, gan gynnwys bod yn Gyfarwyddwr Anweithredol Ofsted rhwng 2006 a 2011 ac yn Gadeirydd Parenting UK rhwng 2006 a 2012. Mae hi'n aelod o gorff llywodraethu Sefydliad Polisi Cyhoeddus Cymru.

Mae Jane wedi ysgrifennu nifer o bapurau academaidd a adolygwyd gan gymheiriaid ym maes pediatreg a seiciatreg, a hefyd mae wedi cyd-olygu'r llyfr "The Politics of Attachment" (1996) a hi hefyd yw awdur "Losing Political Office" (2017).

## Roger Williams CBE (Medi 2015 – Mai 2016)



Mae gan Roger Williams, CBE gyfoeth o brofiad ym  maes gwasanaeth cyhoeddus ac mae wedi bod yn lladmerydd dros bobl ac achosion lleol ers dros dri ddeng mlynedd ar hugain.

Ganwyd Roger yng Nghrucywel ac mae'n dal i fyw yn y ffermdy o'r unfed ganrif ar bymtheg ger Aberhonddu, lle y'i magwyd. Ym 1969, ar ôl graddio yn y Gwyddorau Naturiol yng Ngholeg Selwyn, Caergrawnt, dechreuodd Roger ar ei yrfa fel ffermwr da byw ar fferm y teulu - gyrfa a barhaodd nes iddo gael ei ethol yn 2001.

Yn ystod canol yr 1980au, fe'i hetholwyd yn Gadeirydd cangen Brycheiniog a Maesyfed o Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr. Daeth yn Gadeirydd Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog ym 1990 ac yn aelod o Fwrdd Datblygu Cymru Wledig rhwng 1991 a 1999. Ym 1981, daeth yn gynghorydd Sir, yn gyntaf i'r SDP ac yna i'r Democratiaid Rhyddfrydol. Ar ôl ugain mlynedd o wasanaeth ar Gyngor Sir Powys, etholwyd Roger yn AS dros Frycheiniog a Maesyfed yn 2001, tan fis Mawrth 2015.

Yn ystod ei gyfnod yn y Senedd, mae wedi dal gwahanol swyddi, gan gynnwys swydd Ysgrifennydd yr Wrthblaid dros Gymru, Llefarydd yr Wrthblaid dros Faterion Gwledig a Dirprwy Arweinydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru.

## Ronnie Alexander (Gorffennaf 2017 ymlaen)




Roedd Ronnie Alexander yn Brif Swyddog Iechyd yr Amgylchedd yn Llywodraeth Cymru tan 2013, pan adawodd i fynd ar drywydd amrywiaeth o ddiddordebau eraill. Mae'n cael ei gyflogi ar hyn o bryd gan y Cyngor Defnyddwyr Dŵr fel Eiriolwr Defnyddwyr, a chan yr Asiantaeth Safonau Bwyd fel aelod o Bwyllgor Cynghori ar Fwyd Cymru sy'n benodiad gan y Gweinidog.

Yn ogystal, mae wedi cael ei benodi'n Gadeirydd Annibynnol Pwyllgor Safonau Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent ac mae'n aelod o Fwrdd Gofal Hafod sy'n rhan o Gymdeithas Tai Hendre. Mae Gofal Hafod yn darparu gwasanaethau gofal a chymorth i fwy na 1000 o bobl yng Nghymru.

Roedd gyrfa Ronnie yn y gwasanaeth sifil yn rhychwantu dros 20 mlynedd, ac roedd newid yn yr hinsawdd a chynaliadwyedd yn ddiddordebau penodol ganddo. Cyn hynny bu'n gweithio i nifer o awdurdodau lleol yn Lloegr a Gogledd Iwerddon mewn meysydd fel gwasanaethau cymorth strategol a gorfodi. Mae ganddo hanes sylweddol o ymgysylltu â'r cyhoedd, gweithwyr proffesiynol a gwleidyddion ar bob lefel i ddylanwadu ar bolisi.

Cadarnhaodd Comisiwn y Cynulliad benodiad Ronnie i'r Bwrdd ym mis Mehefin 2017. Cymerodd ei le ar y Bwrdd ym mis Gorffennaf 2017.

# Atodiad B: Dadansoddiad o gostau'r Bwrdd yn ystod 2016-17

Mae'r tabl isod yn dangos y costau uniongyrchol a ysgwyddwyd gan y Bwrdd Taliadau yn 2016-17. Yn ystod y cyfnod hwn, roedd pum cyfarfod ffurfiol o'r Bwrdd. Aeth Aelodau'r Bwrdd i gyfarfodydd ychwanegol hefyd fel rhan o'r gwaith o ddatblygu eu strategaeth, o ran cytuno ar brisiadau'r cynllun pensiwn a phenodi ymchwilwyr. Mae'r tablau isod yn nodi ffioedd a threuliau Aelodau'r Bwrdd.

## Ffioedd Aelodau'r Bwrdd (cyn treth)

| | Y Fonesig Dawn Primarolo (Cadeirydd) | Trevor Reaney | Y Fonesig Jane Roberts | Michael Redhouse | Roger Williams* | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cyfradd ddyddiol** | £333.00 | £267.00 | £267.00 | £267.00 | £267.00 | |
| **Ffioedd** | £5,609.44 | £1,583.41 | £2,978.27 | £2,865.60 | £0.00 | **£13,036.72** |

## Treuliau Aelodau'r Bwrdd

| | Y Fonesig Dawn Primarolo (Cadeirydd) | Trevor Reaney | Y Fonesig Jane Roberts | Michael Redhouse | Roger Williams* | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Milltiroedd car** | £48.15 | £172.80 | £141.30 | £0.00 | **£0.00** | **£362.25** |
| **Tacsi/llogi car** | £37.84 | £88.84 | £6.00 | £0.00 | **£0.00** | **£132.68** |
| **Teithiau awyr** | £0.00 | £322.16 | £0.00 | £0.00 | **£0.00** | **£322.16** |
| **Trên a thrên danddaearol** | £318.84 | £106.03 | £364.27 | £310.80 | **£0.00** | **£1,099.94** |
| **Tollau** | £6.60 | £0.00 | £6.60 | £0.00 | **£0.00** | **£13.20** |
| **Teithio ar fferi** | £0.00 | £244.76 | £0.00 | £0.00 | **£0.00** | **£244.76** |
| **Llety** | £639.50 | £406.00 | £556.00 | £478.00 | **£0.00** | **£2,079.50** |
| **Cynhaliaeth** | £172.85 | £39.25 | £58.15 | £39.04 | **£0.00** | **£309.29** |
| **Cyfanswm** | **£1,223.78** | **£1,379.84** | **£1,132.32** | **£827.84** | **£0.00** | **£4,563.78** |

## Costau Ychwanegol

| | Cyfanswm |
|---|---|
| Cyngor actiwaraidd ar drefniadau pensiwn Aelodau'r Cynulliad gan GAD | £3,746.13 |
| Marchnata a chyhoeddusrwydd | £180 |
| Treuliau cyfarfodydd y Bwrdd | £193 |
| Cyfanswm | **£4,119.13** |

| | |
|---|---|
| **Cyfanswm y gost** | **£21,719.63** |

*Roedd Roger Williams yn Aelod tan fis Mai 2016. Ni chynhaliodd y Bwrdd unrhyw gyfarfodydd yn ystod y cyfnod hwnnw, ac felly ni wnaeth unrhyw hawliadau am ffioedd neu dreuliau rhwng mis Ebrill a mis Mai 2016.